# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24/02/2026 |
| Pwnc: | Dyrannu hyd at £100k o Gyllid o’r Balansau Cyffredinol |
| Aelod(au) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Aelodau Lleol: | Mae’n berthnasol i’r holl Aelodau: |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellion**

1. Caniatáu i ryddhau hyd at £100k o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn:

   - cadw’r gefnogaeth a ddarperir gan staff asiantaeth er mwyn datblygu arbenigedd dau gyfreithiwr a allai gael eu penodi’n fuan;

   - cyllido costau parhaus, ond dros dro, cefnogaeth gan staff asiantaeth ar gyfer cleientiaid, er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a diogel yn ôl i ddarpariaeth gyfreithiol fewnol yn y meysydd gwaith arferol hynny;

   - cadw’r Swyddog Diogelu Data Dros Dro presennol i sicrhau fod y Rhaglen Adfer a Gwella Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei chyflawni, yn ogystal ag adolygu a diweddaru’r system CRM, a datblygu paragyfreithiwr newydd.

2. Dirprwyo unrhyw geisiadau pellach o’r fath i’r Arweinydd a’r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, mewn trafodaeth â’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**Rhesymau**

1. Ymysg meysydd eraill, mae Busnes y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfreithiol mewnol mewn perthynas â gwaith llywodraeth leol arferol.

2. Mae'r tîm yn cynnwys 11 o gyfreithwyr cyflogedig.

3. Mae 5 o'r swyddi hyn yn wag ar hyn o bryd a bydd chweched swydd yn dod yn wag ddechrau Ebrill.

4. Yn hanesyddol ni fu problemau o ran cadw staff o fewn y tîm ac roedd swyddi gwag achlysurol yn cael eu llenwi, yn bennaf gan unigolion oedd yn dymuno dychwelyd i'r ardal.

5. Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau diweddar o ran gweithio o bell, mae'r farchnad swyddi i gyfreithwyr wedi ehangu'n sylweddol.

6. Nid yw'r sector preifat ehangach, a gweddill y sector gyhoeddus yng Nghymru, wedi'i llyffetheirio gan y cynllun arfarnu swyddi i lywodraeth leol sy'n golygu nad yw ein cyflogau i gyfreithwyr bellach yn gystadleuol. Ynghyd â chyfleoedd i weithio'n gyfan gwbl o bell, mae rhai cyn aelodau o staff a darpar ymgeiswyr yn dewis bellach i "fyw fan yma a gweithio fan acw".

7. Gyda'i gilydd, mae 41 ymgais i recriwtio wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth dros gyfnod o 20 mis. A hynny, er gwaethaf adolygu disgrifiadau swyddi/manylebau person sawl gwaith, ail-arfarnu swyddi, hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys, cynnal ymgyrchoedd hysbysebu cenedlaethol, cynnig opsiwn i weithio'n rhan-amser/rhannu swyddi, lleihau ein gofynion iaith Gymraeg ac wedyn eu hepgor yn gyfan gwbl.

8. Gwrthodwyd cais i roi Polisi Atodiadau Marchnad y Cyngor ar waith ar 22/05/2025.

9. Ar 02/05/2025 derbyniwyd cyngor gan yr adran Adnoddau Dynol i beidio â chynnig unrhyw fonws derbyn swydd / bonws croeso oherwydd eu pryder ynghylch her gyfreithiol.

10. Mae'r adroddiad hwn yn deillio o gydnabod bod rhaid yn awr recriwtio cyfreithwyr nad oes ganddynt arbenigedd perthnasol yn y meysydd gofynnol, a darparu cefnogaeth gyfreithiol arbenigol allanol i'w cynorthwyo i ddatblygu fel y gallant gyflawni eu swyddi. Byddai cefnogaeth o'r fath hefyd yn sicrhau parhad gwasanaeth, rhywbeth sy'n holl bwysig yn ystod y cyfnod datblygu.

11. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn awr yn dilyn dau ddatblygiad newydd holl bwysig:

    - Mae ymgeiswyr wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer dwy o'r swyddi gweigion. Mae'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer naill ai newydd gymhwyso neu nid oes ganddynt brofiad yn y maes gwaith perthnasol. Mae'r ddwy swydd yn swyddi "annibynnol" lle nad oes arbenigedd mewnol i ddatblygu'r sawl a benodir. Staff asiantaeth sy'n gwneud y gwaith ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a diogel, ac ar yr amod bod y cais am arian yn cael ei ganiatáu, y bwriad yw cadw'r staff asiantaeth am dri mis, ac am chwe mis, yn y drefn honno. Yn amlwg, ni fydd cyfraniad ariannol gan unrhyw swydd wag gysylltiedig yn ystod y cyfnod trosiannol. Rhagwelir y bydd y costau oddeutu £80k.

    - Erbyn hyn mae pryderon sylweddol am drefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor, ac maent yn mynd ymhell tu hwnt i fethu â chydymffurfio â'r terfyn amser

statudol ar gyfer ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae polisïau a gweithdrefnau sydd wedi dyddio a'r angen i hyfforddi staff yn golygu fod perygl y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gymryd camau gorfodaeth os bydd rhaid eu hysbysu am ddigwyddiad tor-diogelwch data. Lluniwyd Raglen Adfer a Gwella Llywodraethu Gwybodaeth. Yn ogystal, mae angen cefnogaeth broffesiynol arbenigol ar y prosiect i adolygu ac uwchraddio'r system CRM er mwyn cyflawni'r prosiect hwnnw'n llwyddiannus ac efallai y bydd cyfle i benodi paragyfreithiwr fydd angen ei gefnogi a'i ddatblygu. Mae cadw'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro presennol yn ateb mwy cost effeithiol na cheisio'n aflwyddiannus, am yr wythfed tro, i hysbysebu a chaffael ymgynghorydd allanol i wireddu'r Rhaglen Wella. Rhagwelir y byddai cadw'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro am chwe mis yn costio tua £20k.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw opsiynau eraill ar gael yn y tymor byr a'r tymor canolig, heblaw am ddibynnu ar staff asiantaeth/contractau yn ôl y gofyn am gyfnod amhenodol. Ar sail y swyddi gweigion presennol, mae cyllideb Busnes y Cyngor yn gorwario £250k y flwyddyn. Dyma'r gorwariant a ragwelir hefyd ar gyfer 2025/2026. Gallai'r swm gynyddu gan y bydd swydd cyfreithiwr arall yn dod yn wag o fis Ebrill 2026.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw'r penderfyniad yn un y gall Swyddogion ei wneud o dan y Cynllun Dirprwyo / nac o fewn y gyllideb a ddyrannwyd i wasanaeth Busnes y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Gwaith hawl i ddyrannu arian o falansau cyffredinol y Cyngor yn unol â phenderfyniad y Cyngor ynghylch y Gyllideb Flynyddol ar 06/03/2025. Mae'r ddarpariaeth benodol wedi'i chynnwys yn y 7fed pwynt bwled ym mharagraff 2 o Adroddiad y Pwyllgor Gwaith, 27/02/205; sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 06/03/2025.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n cyd-fynd â phenderfyniad y Cyngor ar y Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2025/2026, a wnaed ar 06/03/2025.

## D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Cais yw hwn i gael defnyddio arian o falansau cyffredinol y Cyngor. Mae’n unol â’r awdurdod a ddirprwywyd i’r Pwyllgor Gwaith gan y Cyngor. |

## Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol)

### 1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Y bwriad yw cynorthwyo’r Cyngor i gadw tîm cyfreithiol mewnol er mwyn cefnogi gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus presennol, a gwasanaethau yn y dyfodol, yn effeithiol ar yr Ynys. Mae model fewnol yn fwy cost effeithiol ac mae’n darparu gwell gwybodaeth gyd-destunol a sefydliadol, rhywbeth nad yw’n bosib gyda chefnogaeth allanol. Mae’n gofyn hefyd am lawer iawn llai o waith rheoli. |

### 2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Os caiff y cais ei ganiatáu, bydd y cynnig yn helpu i leihau’r ddibyniaeth ar dri chyfreithiwr asiantaeth, a thrwy hynny leihau costau dros gyfnod o amser. Dylid nodi, er hynny, fod tair swydd cyfreithiwr arall yn wag hefyd; ac nid yw cefnogaeth drosiannol mewn perthynas â’r swyddi hynny wedi’i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae un o’r swyddi hynny’n cael ei chyflawni o dan gontract yn ôl y galw ac un arall gan staff asiantaeth sy’n rhannu swydd. Hyd yma, nid oes ymgeiswyr/ymgeiswyr y gellid eu penodi wedi ymgeisio am y ddwy swydd. Bydd y drydedd swydd yn cael ei hysbysebu am y tro cyntaf ym mis Chwefror, felly nid yw’r sefyllfa’n eglur eto. Dyma’r rheswm am yr ail argymhelliad yn yr Adroddiad. Os yw’r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi’r cynnig presennol, ac os gellir ei weithredu’n llwyddiannus, yna efallai y bydd angen cefnogaeth bellach arnom mewn perthynas â datblygu cyfreithwyr newydd eraill a benodir i’r swydd sy’n weddill. |

### 3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

| |
|---|
| Na |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

| |
|---|
| Na |

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Dim. Er bod y cyd-destun yn ymwneud â materion cyflogaeth, mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chael mynediad at arian ychwanegol, felly nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol. |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Nid yw'n berthnasol yn uniongyrchol. |

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Mae cyflogi cyfreithwyr mewnol yn rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Nid yw cyfleoedd o'r fath yn codi pan ddibynnir ar staff asiantaeth/contractau yn ôl y galw. Mae hysbysebion diweddar yn parhau i nodi fod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ac maent yn nodi'n glir y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau hynny. Er hynny, dylid nodi na fyddai'n bosib gorfodi hyn fel amod ar gyfer unrhyw gynnig o swydd yn gyfreithlon, a gallai atal ymgeiswyr rhag ymgeisio. Byddwn yn parhau i fynnu sgiliau iaith Gymraeg, yn unol â'n Safonau Iaith Gymraeg ym mhob swydd a hysbysebir o'r newydd. |

## E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr ~~/ Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)~~ | Yn cefnogi'r egwyddor |
| 2. Swyddog Cyllid / 151 | Argymell yr adroddiad hwn a'r dull ariannu y mae'n ei ddisgrifio. |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4. AD | Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu'r holl brosesau recriwtio Adnoddau Dynol arferol ac wedi bod yn |

| | |
|---|---|
| | aflwyddiannus wrth geisio penodi swyddogion â phrofiad digonol. Mae felly angen yr opsiynau hyn o dan yr amgylchiadau digynsail y mae'r gwasanaeth yn darganfod ei hun ynddo. |
| 5. Eiddo | |
| 6. TG | |
| 7. Caffael | |
| 8. Sgriwtini | |
| 9. Aelodau Lleol | |

## F - Atodiadau

| |
|---|
| Strategaeth Ariannol Tymor Canolig A Chyllideb 2025/2026 |

## Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

| |
|---|
| Llywodraethu Gwybodaeth - Adroddiad Blynyddol yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth 01/04/2024 - 31/03/2025 |